

Adfer a chreu gweirgloddiau gorlifdir newydd yng Nghymru a Lloegr

Roedd gweirgloddiau gorlifdir cyfoethog o ran eu blodau, a arferai fod yn gyffredin yn nyffrynnoedd afonydd, yn werthfawr iawn am fod eu gwair maethlon yn cadw anifeiliaid fferm yn fyw ac iach dros y gaeaf. Maent yn adfer yn dda ar ôl llifogydd, pan gaiff gwaddodion afon cyfoethog o ran maetholion eu dyddodi ac maent yn gweithredu fel gwrtaith naturiol. Maent yn gynhyrchiol yn ystod sychder oherwydd eu pridd ffrwythlon a'u planhigion gwreiddiau dwfn.

Dim ond 1% o'u hehangder blaenorol, rhyw 3000 ha, sydd ar ôl yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hadeiladu arnynt, eu cloddio am fwynau, eu draenio, eu chwistrellu, eu hadeiladu arnynt, neu wedi'u hail-hadu.


Rydym yn fwyfwy ymwybodol pa mor ddefnyddiol yw gweirgloddiau gorlifdir oherwydd eu buddiannau niferus: systemau amaethyddol hunangynhaliol sy'n cynhyrchu cig iach a gwair heb yr angen am gemegion, cefnogi pryfed sy'n peillio, storio carbon a llifddyfroedd, ail-feithrin priddoedd, gostwng lefelau siltio a llygredd mewn afonydd.

Gan fod 70% o'n gorlifdir yn cael ei amaethu'n ddwys, bydd newid defnydd tir o dir âr neu borfa sy'n cael ei bori'n ddwys i weirglodd cyfoethog o ran rhywogaethau yn adfer y buddiannau hyn ac yn lleihau costau rheoli.

A all eich gorlifdir gefnogi cymuned o blanhigion cyfoethog o ran rhywogaethau?

Bydd angen i chi wybod y math o bridd, ei ffrwythlondeb a'i gyfundrefn ddŵr. Bydd hyn o gymorth i chi farnu'r tebygolrwydd o lwyddo a phenderfynu ar y dull gorau i'w ddefnyddio.

Ceisiwch osgoi safleoedd gyda phridd wedi'i gompactio. Bydd angen i briddoedd â lefelau uchel o faetholion (a ddynodir gan dafol, efwr ac ysgall) leihau eu ffrwythlondeb drwy wneud sawl toriad gwair neu silwair bob blwyddyn am 2-3 blynedd – rhaid symud yr holl wair o'r safle. Mae symud uwchbridd yn opsiwn arall, ond drutach.



Defnyddiwyd y rhan fwyaf o orlifdiroedd afonydd fel gweirgloddiau 100 mlynedd yn ôl, a gellir trawsnewid y rhan fwyaf o orlifdiroedd yn weirgloddiau cyfoethog o ran blodau heddiw.

Maes adfer gweirglodd gorlifdir ar ôl 3 blynedd.



Llun gan: Hilary Wallace

Pa blanhigion sydd eisoes yn bresennol?

Mae'r rhain yn rhoi cliwiau defnyddiol am gyflwr y pridd a'r hanes o'i reoli. Os oes ystod dda o laswelltydd ond ychydig iawn o berlysiâu, mae'n bosibl y bydd y tir wedi cael ei chwistrellu â chwynladdwyr yn y gorffennol ond ei fod yn cadw cyfundrefn ddŵr, strwythur pridd a lefel ffrwythlondeb pridd priodol.

Newid o ddefnydd tir cyfredol i weirglodd cyfoethog o ran rhywogaethau

- Ar gyfer safleoedd gyda phridd wedi'i draenio (heb fod yn llawn dŵr), lle mae rhywogaethau planhigion allweddol yn bresennol (gweler isod), mae'n bosibl mai'r cyfan sydd ei angen yw newid syml wrth reoli, er enghraifft cyflwyno toriad gwair blynyddol ar dir a arferai gael ei bori;
- Ar gyfer tir â'r gyda phriddoedd ffrwythlon iawn, mae'n bosibl y bydd angen cymryd cynydau â'r pellach am 1-2 flynedd heb ddefnyddio unrhyw wrtaith, yna taenu hadau;
- Ar gyfer glaswelltir a reolir yn ddwys, torri a thynnu'r tyfiant am hyd at 3 blynedd heb ddefnyddio gwrtaith, yna oged ddisgio'r glaswelltir i greu pridd moel cyn cyflwyno hadau.

Rhywogaethau planhigion allweddol




Y Bengaled



Erwain



Bwrned mawr



Ffenigl yr hwch

Lluniau gan: Mike Dodd

Cyflwyno hadau

- Gallwch daenu gwair gwyrdd o safle ansawdd da gerllaw. Dylid gwasgaru gwair gwyrdd cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei dorri ym mis Gorffennaf pan fydd yr hadau'n aeddfed. Dylai gwair gwyrdd o 1 ha o weirglodd fod yn ddigon i hadu 3 ha o dir.
- Gall gwasgaru gwair sych cyfoethog o ran rhywogaethau o safle rhoi addas fod yn opsiwn cost isel da, neu fwydo gwair i anifeiliaid yn y cae yn yr hydref.
- Neu, gellir cynaeafu hadau gyda pheiriant brwsio ym mis Gorffennaf pan fydd yr hadau'n aeddfed.
- Cadwch y glastir yn agored am flwyddyn neu ddwy er mwyn helpu'r planhigion i sefydlu.

Rheoli planhigion annymunol

Os bydd chwyn ymosodol fel tafol, llysiâu'r gingroen, ysgall a danadl neu jac y neidiwr yn sefydlu eu hunain, y peth gorau yw eu torri bob blwyddyn cyn iddynt flodeuo a hadu.

Pwyntiau allweddol

Bydd llwyddiant yn dibynnu ar y tywydd ar ôl hau (efallai y bydd llifogydd neu gyfnod o sychder!), ac ar reolaeth hyblyg ar ôl sefydlu.

Bydd torri a phori gwair yn rheolaidd yn hanfodol ar ôl gweithgareddau adfer a dylid ymateb i'r tywydd ym mhob blwyddyn yn hytrach nag yn ôl dyddiadau calendr penodol.

Byddwch yn amyneddgar, gan y bydd yn cymryd AMSER! Ond mae canlyniadau da wedi dod i law o fewn 2-3 blynedd o arallgyfeirio, hyd yn oed os bydd y safle'n edrych ychydig yn flêr am gyfnod.

Rhagor o gyngor

Mae Llysgenhadon FMP wedi'u hyfforddi ac maent ar gael mewn sawl sir i roi cyngor yn lleol.

Gweler nodyn cyngor 'Gweirgloddiau gorlifdir yng Nghymru a Lloegr: Rheoli arfer gorau'.

Mae'n bosibl y bydd Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu helpu, yn enwedig os ydynt yn cefnogi'r gwaith trwy gynlluniau amaeth-amgylchedd.

Gall eich Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Lleol gynnig arweiniad a chyngor ar ffynonellau hadau a chyllid. Ewch i www.wildlifetrusts.org

Gall Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru roi gwybodaeth am lifogydd ac ansawdd dŵr, yr angen am asesiadau risg o lifogydd a thrwyddedau eraill wrth gynllunio gwaith.